

NODIADAU CYFARWYDDYD I HELPU WRTH BENDERFYNU A ALL GWRYCH ACHOSI PROBLEM BOSIBL

Isod mae tabl o gwestiynau dechreuol i'w gofyn er mwyn sefydlu a yw gwrych yn berthnasol i Ran 8 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.

Cwestiynau i'w gofyn	Ydi / Oes	Na
Ydi'r gwrych yn rhwystr o ryw fath, er bod rhai bylchau ynddo?		
Oes yna 2 neu fwy o goed neu lwyni ynddo?		
Ydi'r rhain mewn rhes?		
Ydi'r gwrych yn cynnwys coed neu lwyni bytholwyrdd neu rannol fytholwyrdd yn bennaf?		
Ydi'r gwrych yn uwch na dau fetr?		
Oherwydd ei uchder, a yw'r gwrych yn cael effaith niweidiol ar allu'r unigolion i fwynhau eu cartref neu eu gardd?		
A oes unrhyw ymdrech wedi'i wneud i ddatrys y broblem eisoes?		
Os mai 'oes' yw eich ateb i gwestiwn 7; oes yna dystiolaeth y gallwch ei darparu i gadarnhau hyn?		

Os mai ydi/oes yw eich ateb i bob un o'r cwestiynau hyn, mae'n debygol bod y gwrych yn berthnasol i'r Ddeddf, a gall fod yn bosibl i'r awdurdod lleol weithredu.

Mae cwestiynau 2, 3, 4, 5, 7 ac 8 yn gymharol syml ac nid ydynt yn oddrychol. Ond, mae cwestiynau 1 a 6 yn eithaf goddrychol. Mae'n bwysig bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi mewn modd diduedd a chyson, ac felly mae nodiadau arweiniad syml wedi'u nodi isod i'ch helpu.

1. Dylid mesur 2 fetr o'r tir lle mae'r gwrych yn tyfu, ac fel arfer ar ochr y perchennog y gwrych. Hyd yn oed os yw eiddo'r unigolyn sy'n cwyno yn is na'r tir lle mae'r gwrych yn tyfu, dylid mesur 2 fetr o'r tir lle mae'r gwrych yn tyfu.

2. Nid yw effaith gwreiddiau ar lwybrau, patios neu ddraeniau, na'r ffaith eu bod yn cymryd maeth o'r pridd, yn cael eu cynnwys dan y ddeddfwriaeth.
3. Mae'r ddeddfwriaeth yn ymdrin â phroblemau sy'n ymwneud ag uchder y gwrych yn unig. Fel arfer ni fydd problemau sy'n ymwneud â lled y gwrych yn cael eu hystyried oherwydd bod gan unigolion yn yr eiddo cyfagos hawl i docio canghennau yn ôl i'r terfyn. Ond, os yw'r gwrych mor uchel fel nad yw'n rhesymol i docio'r canghennau heb ddefnyddio offer arbenigol neu gael cymorth proffesiynol a bod y canghennau yn cyfyngu ar y rhan o'r ardd y gellir ei defnyddio, gellir ystyried hyn.
4. Atal golau (fffenestri). Bydd swyddogion yn defnyddio cyfrifiad a ddyfeisiwyd gan y Building Research Establishment (BRE) i benderfynu a yw uchder y gwrych yn cael effaith niweidiol ar olau mewn eiddo. Ond, fel rheol, os oes angen golau artiffisial yn y prif ystafelloedd byw (nid ystafelloedd ymolchi) er mwyn gwneud tasgau domestig arferol ar ddiwrnod golau, gall fod problem.
5. Atal golau (gerddi). Bydd y swyddogion yn defnyddio dull o gyfrifo a yw gwrych bytholwyrdd yn debygol o rwystro golau i ardd yn sylweddol. Ond, fel rheol, os yw'r ardd yn cael ei gysgodi yn sylweddol (mwy na 60%) gan y gwrych, ond heb ystyried cysgodi gan ffynonellau eraill fel adeiladau neu goed unigol, gall fod problem.
6. Amwynder gweledol. Os yw'r gwrych yn dominyddu ac yn ormesol, gall fod problem. Does gan neb hawl i olygfa, ac felly ni ellir ystyried hyn ar ei ben ei hun. Ond, os mai'r gwrych yw'r ffactor sy'n dominyddu mewn gardd a'i fod hefyd yn rhwystro golygfa, neu linell y gorwel, yna gall hyn fod yn ystyriaeth. Rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â phob achos yn unigol, a dylid ystyried ffactorau fel cymeriad cyffredinol yr ardal, e.e. os yw'r ardal yn gymharol agored, gall fod yn afresymol i osod gwrych mor uchel.
7. Dylai'r Cyngor geisio cael cydbwysedd rhwng hawliau'r ddau gymydog i fwynhau eu heiddo, ac felly, os yw'r gwrych yn cael effaith arnynt, ond bod yr hwylustod i'r perchennog yn fwy na'r effaith niweidiol ar yr unigolyn sy'n cwyno, ni ddylid cyflwyno Rhybudd. Gellir ystyried gwneud gwaith llai i liniaru'r effaith. Mae'n bwysig asesu'r broblem o safbwynt perchennog y gwrych a'r unigolyn sy'n cwyno, a bod yn ddiduedd bob amser.